



Cylchlythyr Mis Ionawr Canolbarth Cymru

Tyfu

Ffocws ar y Rhaglen Ddigidol

Blwyddyn newydd dda!

Rydym yn barod i fynd ati i weithio ar yr holl brosiectau sydd gennym ar y gweill eleni. Gyda'r cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, Contract y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau a digwyddiad yn y Gwanwyn oll yn cael eu cwblhau, rydym yn paratoi am flwyddyn fawr – a ydych chi?

Cyn i ni neidio mewn i newyddion 2023, a gawsoch chi'r cyfle i ddarllen yr Adolygiad Rhanbarthol Business News Wales 2022 y cawsom ein cynnwys ynddo? Os na, dyma'r ddolen i [Uchafbwyntiau 2022 Thwf Rhanbarthol Cymru a Bargeinion Dinas](#).

Y mis hwn rydym yn canolbwyntio ar bob peth Digidol; Cysylltedd presennol Canolbarth Cymru, pa fentrau sydd ar gael ar hyn o bryd a nodau ein Rhaglen Ddigidol.


Mae gennym hefyd ddarn misol newydd sbon sy'n dechrau'r mis hwn - Cwrdd â'r Tîm: bob mis byddwn yn rhoi sylw ar aelod gwahanol o'n tîm. Darllenwch ymlaen i ddysgu mwy am rôl ein Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Dave Owen.

A yw'ch sefydliad chi yn rhan o bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru? Neu, a ydych chi'n aelod o grŵp sydd wedi cael budd gan gyllid datblygu rhanbarthol Ewropeaidd? Os ydych, hoffem rannu ychydig o'ch newyddion mewn cylchlythyrau yn y dyfodol. Cysylltwch!

Bellach, y cylchlythyr hwn yw ein ffordd reolaidd o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid a byddwn wastad yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu gynnwys perthnasol i'w gynnwys yma, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Helpu i gynyddu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru



Darllenwch ymlaen am:

- Ffaith y mis
- Cysylltedd presennol Canolbarth Cymru
- Y Rhaglen Ddigidol
- Mentrau Digidol
- Cwrdd â'r Tîm
- Cael y newyddion diweddaraf

Ffaith y mis: Gosod pwrpas o'r newydd ar gyfer ciosgau Powys

Mae'r ciosg ffôn coch yn eiconig ac arferent gynnig gwasanaeth hanfodol i nifer o bobl cyn dyfodiad ffonau symudol.

Ers 2008, mae bron i 4,000 o gymunedau a chyrrff elusennol wedi mabwysiadu dros 5,800 o giosgau ffôn coch eiconig gan BT. Am £1 yn unig, mae grwpiau cymunedol wedi llwyddo i drawsnewid ciosgau yn asedau ymarferol, diwylliannol ac ysbrydoledig, megis defnyddio'r lle i gadw diffibriliwr.

Mabwysiadwyd 51 o giosgau gan grwpiau cymunedol ym Mhowys, gan gynnwys: Cymuned Llangynllo, Cyngor Tref Trefaldwyn, a Chyngor Cymuned Dwyrw.


Yn 2011, trawsnewidiwyd ciosg yn Llanfrynach ger Aberhonddu yn oriel gelf dros dro hyd yn oed!

Am fanylion pellach ynghylch sut i wneud cais i Fabwysiadu Ciosg, trowch at www.bt.com/adopt lle y mae modd cael ffurflenni cais a gwybodaeth



1 - Cymrwyd y ddelwedd o [Ffynhonnell BBC](http://www.bbc.com).

Cysylltedd presennol Canolbarth Cymru



Mae cael mynediad i wasanaeth ffôn symudol a band eang o ansawdd da yn hanfodol yn yr unfed ganrif ar hugain. O gadw mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau i fanteisio ar wasanaethau hollbwysig megis ymgynghoriadau meddygol ar-lein a siopa ar-lein, yn enwedig ar gyfer y rhai mewn cymunedau gwledig; gall gwasanaeth band eang a ffôn symudol fod yn benderfynydd pwysig ar gyfer lles.

Yn hanesyddol, mae lefelau cysylltedd digidol yng Nghanolbarth Cymru wedi bod yn is nag y maent wedi bod mewn rhai rhannau o Gymru a'r DU. Mae cyflwr cysylltedd digidol yn amrywio'n eang ar draws y rhanbarth.

Band eang

Gall tua 88% o eiddo yng Nghanolbarth Cymru gysylltu â gwasanaeth Band Eang Cyflym lawn (30Mbps+), sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (97%) a'r DU (97%).


Mae hyn yn cyfateb ag oddeutu 1 o bob 7 eiddo ar draws Ceredigion a Phowys a ystyrir yn 'eiddo gwyn', lle na ellir cael 30Mbps ar hyn o bryd, a lle nad oes unrhyw ymyrraeth wedi cael ei chynllunio ar hyn o bryd dros y 3 blynedd nesaf.

Ar hyn o bryd, gall 33% o'r rhanbarth gael mynediad i wasanaeth Ffeibr i'r Eiddo (FTTP), sy'n caniatáu cyflymder lawrlwytho o 1gbps (1000Mbps), ac mae hyn yn is na'r lefelau cyfartalog yng Nghymru a'r DU.


Ni all 7.5% o'r eiddo ar draws Canolbarth Cymru fanteisio ar gysylltiad o dros 10Mbps, o'i gymharu gyda dim ond 1.8% yng Nghymru a 2.2% yn y DU sy'n wynebu'r broblem hon.

Er hynny, mae'r darlun yn gwella mewn rhai ardaloedd. Trwy ddefnyddio rhaglen Superfast Cymru, y bwriedir iddi gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2023, awgrymwyd gan Openreach y bydd 90% o eiddo yn gallu cael band eang Cyflym lawn (<30 Mbps) ar ôl i'r rhaglen gael ei chwblhau.

Ystadegau Band Eang (Rhagfyr 2022)



2 - www.thinkbroadband.com



3 - www.thinkbroadband.com

Astudiaeth achos: Y dref gyntaf yng Ngheredigion i sefydlu Wi-Fi yng nghanol y dref Aberteifi oedd y dref gyntaf yn sir Ceredigion i gynnig wi-fi yng nghanol y dref gyfan. Cymerodd ddwy flynedd i'w gynllunio, gyda help wrth Cyflymu Cymru i Fusnesau, ac fe aeth y rhwydwaith yn fyw ym mis Mai 2018 gan gynnig cysylltedd am ddim i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Esboniodd Cyngorydd Sir Ceredigion, Clive Davies, fod y syniad wedi dod i greu dadansoddeg ledled y dref o systemau a fabwysiadwyd gan archfarchnadoedd mawr sy'n mesur yn rheolaidd rhannau mwyaf poblogaidd eu siopau gan gynnwys nifer ymwelwyr a'r cyfnodau siopa prysuraf. "Ar gyfer tref farchnad oedd ein system ni" esbonia Davies. "Mae'r [system] yn defnyddio offer wi-fi allanol Cisco, sydd hefyd yn casglu gwybodaeth ddadansoddol fel amser preswyllo, niferoedd ymwelwyr, ynghyd ag ymwelwyr newydd â'r dref ac ymwelwyr sy'n dychwelyd."

Gall y data olrhain parcio ceir hefyd, gan gynnwys pa mor hir y mae pobl yn aros, pa amser o'r dydd yw'r prysuraf a pha ddyddiau yw'r prysuraf. Gall hefyd ddatgelu'r effaith y mae'r tywydd neu ddigwyddiad lleol yn ei chael ar ffigurau ymwelwyr, yn ogystal â pha mor aml y mae pobl yn ymweld â'r dref, p'un a ydyn nhw'n ymwelwyr newydd neu maen nhw'n dychwelyd yn ddyddiol, wythnosol, ac ati. Bob mis, anfonir adroddiad am ddadansoddeg wi-fi y dref at holl berchnogion busnesau'r dref.

Darllenwch yr astudiaeth achos lawn ar sut mae Wi-fi y dref o fudd i fusnesau'r dref, y preswylwyr a'r ymwelwyr ar wefan [Cyflymu Cymru i Fusnesau](#).

Mae gwasanaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau/Busnes Cymru yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru.



Gronfa Band Eang Lleol Llywodraeth Cymru

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd y byddai Powys yn elwa o fenter Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â materion cysylltedd yn ei chymunedau trwy Gronfa Band Eang Lleol.

Bydd y £900,000 prosiect yn cysylltu 13 adeilad 'anodd eu cyrraedd' ym Mhowys, gan roi manteision i 139 adeilad arall ar draws y Sir ar yr un pryd'.

Bydd yr adeiladau'n derbyn cysylltiadau ffeibr, gyda'r ceblau ffeibr yn mynd yn uniongyrchol o'r gyfnewidfa i'r adeiladau anodd eu cyrraedd. Bydd y cebl ffeibr yn cael ei hollti ar hyd y llwybr, lle mae nod ffeibr er enghraifft, ac yn cael ei ailgyfeirio i adeiladau ar y ffordd.

Mae mwy o wybodaeth ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Symudol


Yn yr un modd â band eang, mae'r gwasanaeth symudol yn waeth na'r hyn a welir yng Nghymru ac yn y DU ar gyfartaledd, ac mae topograffeg a'r ffaith bod dwysedd y boblogaeth yn is yn creu sialensiau penodol wrth wella'r gwasanaeth symudol ar draws Rhanbarth Canolbarth Cymru.

Mae 86% o Ganolbarth Cymru yn cael gwasanaeth 4G gan o leiaf un gweithredwr, a dim ond 54% o eiddo sy'n gallu manteisio ar wasanaeth 4G gan y pedwar gweithredwr, ac mae hyn yn cymharu â

73% yng Nghymru ac 80% ar draws y DU ar gyfartaledd. Nid oes gan tua 9% o eiddo ar draws y rhanbarth unrhyw wasanaethau 4G dan do.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ceredigion a Phowys wedi gweld sawl mast 4G newydd yn cael eu neilltuo a'u defnyddio, ac mae hyn wedi arwain at welliannau o ran y gwasanaeth symudol, a bwriadir cael nifer o fastiau newydd trwy gyfrwng [rhaglen Gwasanaeth Ardal Estynedig \(EAS\)](#) er mwyn darparu gwasanaeth gwell ar gyfer Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys mewn rhannau gwledig ac anghysbell o'r ddwy sir.

Y gobaith yw y bydd y mastiau ychwanegol hyn yn cael eu masnacheiddio er mwyn darparu gwasanaethau i breswylwyr a busnesau trwy gyfrwng y Rhaglen Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd, a weithredir gan y Swyddfa Gartref ar y cyd â'r pedwar prif Weithredwr Rhwydwaith Symudol (MNO's), sef EE, Vodafone, Three ac O2.



4 - Cwmpas daearyddol 4G

Data: Cysylltu'r Gwledydd Ofcom 2021

Map: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

Astudiaeth achos: Defnyddio band eang i estyn allan i fwy mewn angen

Yn allweddol i gael Canolbarth Cymru wedi'i gysylltu mae rhaglen band eang cyflym iawn a gwibgyswllt Llywodraeth Cymru, sydd wedi derbyn cyfanswm cyfunol o £29.6 miliwn o gyllid o dan y rhaglen Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) bresennol. Mae'r prosiectau hyn yn adeiladu ar weithgaredd a ariennir yn y rhaglen flaenorol, gyda'r nod o gysylltu 40,000 o adeiladau 'anoddach eu cyrraedd' i seilwaith band eang sy'n addas i'r dyfodol.

Un elusen o Geredigion sydd wedi defnyddio'r rhaglen hon i wneud ei gwasanaethau'n fwy hygyrch yw Area 43. Mae [Area 43](#) yn rhedeg canolfan galw heibio a gwasanaethau cwnsela, ac mae hi mewn cysylltiad â 1,800 o bobl ifanc fregus bob blwyddyn, llawer ohonynt yn cael eu hatgyfeirio gan

wasanaethau eraill megis addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, meddygon teulu, banciau bwyd a chyfiawnder ieuenctid.

Gyda help Cyflymu Cymru i Fusnesau, Mae Area 43 wedi gwneud y sefydliad yn fwy hygyrch i'r bobl ifanc yng Ngheredigion trwy wella ei wefan, cynyddu ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a sefydlu gwasanaeth cwnsela ar-lein Yma i Chi.

Darllenwch yr astudiaeth achos lawn ar sut mae'r elusen wedi gwella ei gwasanaethau i bobl ifanc ar wefan [Cyflymu Cymru i Fusnesau](#).

Mae gwasanaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau/Busnes Cymru yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru.



5 - Lisa Head, Rheolwr Gwasanaeth yn Ardal 43. Delwedd drwy garedigrwydd Cyflymu Cymru i Fusnesau.

LoRaWAN

Mae LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir) yn Rhwydwaith Ardal Eang Pŵer Isel (LPWAN) a wnaethpwyd ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau (IoT). Fe'i cynlluniwyd er mwyn caniatáu i ddyfeisiau a synwryddion pŵer isel gyfathrebu gyda chymwysiadau wedi'u cysylltu â'r Rhyngrwyd dros gysylltiadau diwifr pellter hir.


Nid yw'r synwryddion neu'r dyfeisiau hyn yn defnyddio fawr iawn o bŵer ac maent yn gweithio ar fatris neu ddyfeisiau sy'n cynaeafu ynni (solar fel arfer), sy'n golygu y gallant fod yn eu lle am hyd at 10 mlynedd heb yr angen i'w disodli.

Gellir defnyddio LoRaWAN ym maes cludiant, amaethyddiaeth, twristiaeth, rheolaeth amgylcheddol, gofal cymdeithasol a thai.

Gellir cael manylion pellach am LoRaWAN yn y fideo hwn a gyflwynir gan [The Things Network](#).



Pyrth LoRaWAN




6 - Pyrth LoRaWAN Ceredigion

Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae [Cyngor Sir Ceredigion](#) a [Chyngor Sir Powys](#) wedi bod yn cwblhau prosiect i osod Pyrth LoRaWAN ar sawl un o asedau'r Cyngor er mwyn creu rhwydwaith LoRaWAN ar draws Canolbarth Cymru. Hwn yw'r rhwydwaith mwyaf helaeth ar draws Cymru.

Yn ogystal â'r Cyngor yn cael mynediad, bydd y rhwydwaith ar gael ac yn hygyrch i bob busnes, sefydliad a phreswlydd. Mae caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio pyrth yn sicrhau y bydd y platfform yn tyfu mewn ffordd haws (sy'n golygu ei fod yn fwy tebygol o gael ei gynorthwyo yn y dyfodol) ac fel platfform poblogaidd sy'n tyfu, mae'n golygu y bydd mwy o bobl yn datblygu synwryddion ar gyfer LoRaWAN, gan greu mwy o galedwedd a mwy o feddalwedd yn y farchnad.

Wrth i rwydwaith y pyrth gynyddu, mae'n ychwanegu capasiti a chydnerthedd hefyd, lle y gallai ardaloedd gael eu gwasanaethu gan byrth lluosog. Mae hyn yn golygu, os bydd porth yn methu, cynhelir cysylltedd trwy gyfrwng porth arall.



7 - Pyrh LoRaWAN Powys

Trwy gynnig mynediad am ddim i rwydwaith LoRaWAN Ceredigion a chydweithio rhwng adrannau mewnol y Cyngor, perchnogion busnes a sefydliadau lleol eraill megis Prifysgol Aberystwyth a Chyswilt Ffermio, rydym yn cynnig y cyfle i ddatblygwyr, mabwysiadwyr a defnyddwyr dreialu a defnyddio datrysiadau er mwyn rhoi sylw i ystod eang o sialensiau y mae pobl, busnesau a sefydliadau lleol yn eu hwynebu.

Bydd yr achosion defnyddio hyn, sy'n cynnwys monitro amgylcheddol a datblygiadau ym maes 'Technoleg Amaethyddol', yn cael eu rhannu a'u hamlygu, gyda'r nod o ysbrydoli busnesau a sefydliadau eraill i ddefnyddio rhwydwaith LoRaWAN er mwyn arbed costau a gwella effeithlonrwydd. Mae'r defnydd posibl o synwryddion yn cael ei ystyried gydag adrannau'r Cyngor ar hyn o bryd er mwyn penderfynu ar eu defnydd effeithiol a sut y bydd modd eu defnyddio.

Mae trefniadau cydweithio gyda chyrrff o'r sector cyhoeddus a rhai busnesau yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd er mwyn galluogi mynediad i byrth y gall y sefydliadau hyn eu defnyddio i ddatblygu eu

prosiectau eu hunain a defnyddio achosion. Trwy wneud hyn, bydd modd amrywio'r defnydd a wneir o'r rhwydwaith y mae'r rhanbarth wedi ei roi yn ei le ac ysgogi arloesedd.

Astudiaeth achos: Prosiect IoT arloesol yn gwneud tai cymdeithasol Canolbarth Cymru yn fwy rhagweithiol

Llwyddodd Barcud, cymdeithas tai cymdeithasol Canolbarth Cymru (a elwid gynt yn Tai Ceredigion a Chymdeithas Tai Canolbarth Cymru cyn iddynt uno) - i ddefnyddio IoT i drawsnewid ei ffordd o fod yn adweithiol wrth fynd i'r afael â materion, i rhagweithiol. Trwy sefydlu ystod o synwryddion o fewn ei eiddo i gasglu data hanfodol ar gyfer datrys problemau, mae'r sefydliad wedi gallu lleihau costau a darparu gwasanaeth gwell i denantiaid.

Darllenwch yr astudiaeth achos lawn ar sut y llwyddodd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru i wneud ei gwasanaethau'n fwy effeithlon ar wefan [Cyflymu Cymru i Fusnesau](#).

Mae gwasanaeth Cyflymu Cymru i Fusnesau/Busnes Cymru yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.



Y Rhaglen Ddigidol



Nod Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru yw manteisio ar y cyfleoedd economaidd y bydd modd eu datgloi trwy fuddsoddi mewn seilwaith digidol er mwyn rhoi sylw i'r diffygion mewn cysylltedd digidol, llywio'r penderfyniad i fanteisio ar dechnolegau newydd ymhlith busnesau'r rhanbarth a gwella'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Cyflawnir hyn trwy gyflymu darpariaeth seilwaith digidol ar draws Canolbarth Cymru trwy gyfrwng ystod amrywiol o ddefnydd seilwaith diwifr a sefydlog, gyda phlatfformau arloesol, cymorth busnes a diwygiadau polisi yn cyd-fynd ag ef, sy'n hwyluso neu sy'n darparu mwy o fuddsoddiad yn uniongyrchol, gan ysgogi'r galw, a chyflymu manteisio a chreu digidol ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru.

Bydd y rhaglen yn ystyried symud prosiectau yn eu blaen sy'n cyd-fynd gyda ac sy'n cynnig rhywbeth ychwanegol i'r mentrau hynny sydd eisoes yn eu lle neu sydd wedi cael eu cynllunio trwy gyfrwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod prosiectau yn cyd-fynd gyda defnydd a buddsoddiad masnachol ar draws y rhanbarth, heb unrhyw ddyblygu, er mwyn sicrhau cymaint o elw ag y bo modd ar y buddsoddiad.

Oherwydd hyn, mae'r Rhaglen wedi nodi rhestr hir o gyfleoedd ac ymyriadau posibl i'w hystyried a'u datblygu ymhellach, gan gydnabod y bydd angen i'r rhaglen a phrosiectau posibl fod yn gallu cael eu haddasu yn hawdd er mwyn ymateb mewn ffordd effeithiol i'r amgylchedd y mae'r Rhaglen yn gweithredu ynddo, sy'n newid yn gyson. Gydag ymddygiad defnyddwyr a'r farchnad, cynlluniau'r Llywodraeth, a mentrau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi cael eu cynllunio yn parhau i esblygu.

Mentrau Digidol Tyfu Canolbarth Cymru



Mapio Cysylltedd

Bydd prosiectau digidol TCC yn dibynnu'n fawr ar ddealltwriaeth fanwl o fannau gwannaf y seilwaith digidol, lle y caiff ymyriadau eraill eu cynllunio, a lle y bydd gofyn cael ymyrraeth bellach.

Amcan ein prosiect mapio yw casglu a mapio data er mwyn cynnig darlun cyflawn o statws cysylltedd presennol a gosodedig, symudol ac LoRaWAN ar draws Ceredigion a Phowys.

Bydd y data a gaiff ei goladu yn caniatáu i ni nodi problemau sy'n bodoli, lleoliad y problemau hynny, pa ymyriadau presennol fydd yn rhoi sylw iddynt, a pha broblemau fydd yn parhau oni bai y ceir ymyrraeth bellach. Bydd y data yn cynnig ffordd o amcangyfrif cost ymyriadau posibl o'r fath yn fanwl. Bydd hyn yn caniatáu i ni benderfynu faint o weithredu i'w wneud, gan osgoi dyblygu gweithgarwch a gwariant, trwy gyfrwng prosiectau Rhaglen Seilwaith Digidol.

Disgwylir i'r prosiect gychwyn yn ystod y Gwanwyn 2023 ac mae'n gam sylfaenol er mwyn adnabod ymyriadau effeithiol wedi'u targedu, a'u cyflawni. Bydd yn gweithredu fel galluogwr pwysig ar gyfer holl brosiectau eraill y Rhaglen Ddigidol gan ei bod yn hanfodol ein bod yn meddu ar ddealltwriaeth glir a chyflawn o lefel y cysylltedd ym mhob lleoliad.

Mentrau digidol eraill yr ydym yn rhan ohonynt

Prosiect Gigabit



Gwnaethpwyd y cyhoeddiad cyntaf am [Project Gigabit](#) yn ystod Cyllideb y Gwanwyn 2020 ond bu'n rhaid ei oedi a'i ddiwygio. Mae'n rhaglen sy'n werth £5bn gan Lywodraeth y DU, sy'n ceisio cyrraedd dros filiwn o gartrefi a busnesau 'anodd eu cyrraedd' er mwyn darparu band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit i o leiaf 85% o eiddo yn y DU erbyn diwedd 2025 ac i 100% erbyn 2030.

Mae nifer o ddarparwyr rhwydwaith eisoes yn adeiladu eu seilwaith band eang ffeibr llawn eu hunain, gan ehangu'r rhain ar draws y Rhanbarth. Fodd bynnag, gan fod y gweithgarwch cyflwyno hwn yn dibynnu'n fawr ar gyllidebau darparwr a 'phrosiectau adeiladu masnachol', mae'r ardaloedd lle y gallant fforddio cyflenwi a gosod seilwaith ffeibr yn gyfyngedig. Byddai rhai ardaloedd, megis rhai yng Ngheredigion ac ym Mhowys, yn costio mwy i ddarparwr gynnig ffeibr nag y byddai'n gallu ei adennill ar ffurf refeniw, hyd yn oed wrth i bobl ddefnyddio'r Daleb Gigabit.

I oresgyn hyn, bydd cyllid Prosiect Gigabit yn mynd tuag at helpu darparwyr i gyflawni'r gosodiadau gwledig iawn hyn yn uniongyrchol, trwy rannu ardaloedd ac ymarferion caffael a gyflawnir er mwyn cysylltu'r eiddo yn yr ardaloedd hyn gyda ffeibr. Bydd hyn yn caniatáu i ddarparwyr ehangu eu rhwydweithiau i'r holl gartrefi posibl, beth bynnag fo'r buddiannau masnachol neu'r hyfywedd economaidd.

Maer Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd 234,000 o eiddo yng Nghymru o fewn cwrpas Rhaglen Prosiect Gigabit – sy'n golygu na fyddant yn cael budd gan weithgarwch adeiladu masnachol arall, ac felly, y bydd gofyn iddynt gael cymhorthdal cyhoeddus i fynd ymhellach. Bydd y Llywodraeth yn nodi'r amserlen er mwyn darparu'r cysylltiadau hyn yng Ngheredigion ar ôl iddi gytuno ar y broses gaffael gyda Llywodraeth Cymru, y credir y bydd yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd



Mae'r [Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd \(SRN\)](#) yn drefniant lle y mae Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNO's) a Llywodraeth y DU yn cydweithio i wella'r gwasanaeth 4G i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio mewn ardaloedd gwledig lle y mae'r gwasanaeth yn wael.

Ar y cyd, mae EE, O2, Three a Vodafone yn buddsoddi £532 miliwn i ymestyn eu gwasanaeth trwy uwchraddio eu rhwydweithiau presennol, cydweithio ar seilwaith ar y cyd, ac adeiladu safleoedd newydd. Yn ychwanegol i hyn, bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £500 miliwn pellach er mwyn

adeiladu mastiau newydd mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw wasanaeth 4G gan unrhyw weithredwr.


Gorfodir yr ymrwymadau gwasanaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith gan Ofcom, a byddant yn arwain at wella'r gwasanaeth yng Nghanolbarth Cymru i 97% gan o leiaf un gweithredwr ac i 78% gan y pedwar gweithredwr. Mae hyn yn cymharu â'r lefelau presennol sef 86% a 51%.

Mae tîm Tyfu Canolbarth Cymru a'r ddau Awdurdod Lleol yn ymwneud ag ymgynghoriadau parhaus gyda'r rhai sy'n darparu'r cynllun ac maent wedi ymrwmo i ddarparu cymorth pan fo modd.


Rhanbarth y Senedd	Gwasanaeth 4G gan bob MNO		Gwasanaeth 4G gan o leiaf un MNO	
	Cyn SRN	Disgwyliedig ar ôl SRN	Cyn SRN	Disgwyliedig ar ôl SRN
Canolbarth a Gorllewin Cymru	51%	78%	86%	97%
Gogledd Cymru	63%	83%	93%	98%
Canol De Cymru	82%	90%	98%	99%
Dwyrain De Cymru	71%	89%	96%	99%
Gorllewin De Cymru	79%	88%	97%	99%

8 - Signal symudol gan Weithredwyr Rhwydwaith Symudol yng Nghymru, wedi'u rhannu fesul rhanbarth.

Bydd yr SRN yn darparu cysylltedd symudol 4G dibynadwy, gan ganiatáu i fusnesau gwledig lwyddo ac i gymunedau gwledig ffynnu. Gwarantir y bydd y seilwaith newydd yn dwyn gwelliant arwyddocaol i'r gwasanaeth symudol yn y rhanbarth, ac yn ei dro, bydd yn cynnig manteision economaidd ac yn rhoi sylw i'r gagendor digidol trefol a gwledig, gan ddarparu seilwaith digidol gwell i'r ardaloedd y mae angen iddynt ei gael fwyaf.



9 - Mapiau i gymharu cysylltedd symudol 4G cyn ac ar ôl gweithgareddau Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd (SRN).



Nodiadau

Mae'r gwelliannau a ragwelir yn ddibynnol ar argaeledd safleoedd EAS.

Mae'r gwelliannau i'r gwasanaeth yn ddibynnol ar sicrhau safleoedd addas, sicrhau cyflenwad pŵer ac ôl-drosglwyddo data a sicrhau'r caniatâd angenrheidiol trwy'r system gynllunio.

Yr Ychydig % Olaf

Mae gan Geredigion a Phowys dros 18,000 'eiddo gwyn' fel y'u diffiniwyd gan Adolygiad Marchnad Agored (OMR) 2021 Llywodraeth Cymru. Yr eiddo hyn yw'r rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar fand eang Cyflym lawn ar hyn o bryd (sy'n cael ei ddiffinio fel cyflymder lawrlwytho dros 30Mbps) neu nad ydynt yn rhan o gynllun trwy gyfrwng unrhyw ffurf o gynlluniau adeiladu masnachol neu a ariannir gan arian cyhoeddus yn ystod y 3 blynedd nesaf. Gyda'r ddibyniaeth gynyddol ar y Rhyngwrwd ar gyfer busnesau a defnyddwyr yn y cartref, rhaid datrys y broblem hon mor gyflym ag y bo modd.

Er y gobeithir y bydd Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr eiddo gwyn yn dilyn ymarferion caffael, bydd nifer arwyddocaol o eiddo na fyddant yn gallu cael mynediad i Fand Eang Cyflym lawn o hyd am sawl blynedd heb ymyrraeth, yn rhai preswyl ac yn rhai masnachol.

Bydd y prosiect hwn yn ystyried sut y gall cysylltedd gyrraedd yr eiddo olaf yn y rhanbarth y maent heb wasanaethau band eang digonol. Bydd yn ceisio darparu cysylltedd band eang fforddiadwy a chynaliadwy er mwyn cynnig budd i gymunedau a busnesau Canolbarth Cymru hyd y gellir ei ragweld, o ystyried y ffaith na ddisgwylir i fand eang ffeibr i'r eiddo gyrraedd nifer arwyddocaol o eiddo am efallai sawl blwyddyn.

Mannau Gwan Symudol



Mae'r Rhaglen Ddigidol yn cydnabod, er gwaethaf y gwelliannau i'r gwasanaeth symudol a ddisgwyllir dros y blynyddoedd nesaf, y bydd ardaloedd ar draws Ceredigion a Phowys heb wasanaeth symudol o hyd. Gallai hyn effeithio ar sawl cymuned a bydd yn cael effaith negyddol ar fusnesau, a gallu rhai i gynnal cyswllt gyda gwasanaethau ac mewn rhai achosion, gyda'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewid Cyhoeddus (PSTN) yn cael ei ddiffodd, gallai achosi rhai pryderon ynghylch diogelwch.

Ar hyn o bryd, mae ein Rhaglen Ddigidol yn ystyried pa ymyriadau y gellir eu datblygu er mwyn sicrhau a gwella'r gwasanaeth symudol mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn 'fannau gwan' ac y byddant yn parhau i gael eu hystyried yn 'fannau gwan'. Mae dewisiadau ynghylch y dechnoleg fwyaf addas yn cael eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y gall cymunedau a busnesau gael y budd mwyaf o'r prosiect arfaethedig.

Cwrdd â'r Tîm

Fel nodwedd newydd, bob mis, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i aelod o'r tîm. Byddant yn rhannu eu dirnadaeth o'u rôl a'r gwaith y maent yn rhan ohono. Y mis hwn, atebir y cwestiynau hyn gan Dave Owen, ein Rheolwr Rhaglen Ddigidol.



10 - Dave Owen, Rheolwr Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru.

• Pryd ddechreuoch chi gyda'r tîm?

Ymunais â'r tîm yn ôl ym mis Gorffennaf 2021. Cyn hyn, roeddwn yn gweithio fel Swyddog Datblygu Digidol yng Nghyngor Sir Ceredigion, ac roedd hyn wedi cynnig dealltwriaeth drylwyr i mi o'r 'tirlun

digidol' ar draws y rhanbarth a pha broblemau y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Rhaglen Ddigidol.

- **Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

Mae'n hanfodol ar gyfer llwyddiant y rhaglen ac i'r rhanbarth bod y Rhaglen Ddigidol yn canolbwyntio ar gysylltedd yn y cymunedau a'r ardaloedd lle nad yw eraill yn canolbwyntio arnynt; lle nad yw gweithgarwch adeiladu a ariannir gan arian cyhoeddus megis Superfast Cymru Llywodraeth Cymru a Phrosiect Gigabit yn mynd i ymyrryd, neu lle nad oes cynlluniau i wneud buddsoddiadau masnachol gan ddarparwyr seilwaith digidol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd â'r cynlluniau sydd eisoes mewn grym ac y gall uchafswm yr eiddo ar draws y rhanbarth fanteisio ar lefelau cysylltedd a fydd yn addas yn y dyfodol, ac y defnyddir ymdrechion ac Arian y Fargen Twf mewn ffordd mor effeithiol ag y bo modd, heb ddyblygu.

- **Pa ddatblygiadau yr ydych chi wedi eu gweld dros y blynyddoedd?**

Mae natur technoleg ddigidol yn golygu bod wastad mentrau a datblygiadau newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn cynorthwyo cymunedau ac unigolion i wella eu cysylltedd symudol a'u band eang. Bu sawl rhaglen gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sydd wedi cael effaith fawr ar y lefelau cysylltedd ar draws y rhanbarth ers i mi gychwyn, gan ddwyn cynnydd o 15% mewn gwasanaethau Ffeibr i'r Eiddo (FTTP) ar draws y rhanbarth dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac mae hyn yn cyfateb â bron i 19,000 eiddo ychwanegol yn gallu cael gwasanaethau FTTP ar draws Canolbarth Cymru.

Gyda'r disgwyliad y bydd gweithredu Prosiect Gigabit yn dechrau yn ystod y Gwanwyn 2023 a'r Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd yn gwneud cynnydd, bydd busnesau a phreswylwyr yn gweld gwelliannau mawr yn y lefelau cysylltedd ar draws Rhanbarth Canolbarth Cymru dros y blynyddoedd nesaf, a'r gobaith yw y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol nid yn unig ar yr economi leol, ond hefyd ar fywydau'r rhai sy'n byw ar draws Powys a Cheredigion.

- **Beth fu eich cyflawniad mwyaf?**

Credaf bod modd ystyried cyrraedd y pwynt lle y mae'r Rhaglen wedi ei gyrraedd ar hyn o bryd fel y cyflawniad mwyaf. Mae wedi cymryd cryn dipyn o gydweithio a phroses i gyrraedd y pwynt lle y mae gennym Achos Busnes Rhaglen wedi'i gymeradwyo a Bwrdd Rhaglen sefydledig sy'n cynnwys cymysgedd effeithiol o wybodaeth ac arbenigedd er mwyn sicrhau llwyddiant y rhaglen. Bellach, rydym wedi cyrraedd y man cyffrous lle'r ydym yn trafod, fel Bwrdd Rhaglen, pa brosiectau y dylid eu symud ymlaen i'w cyflawni.

- **Beth yw eich gobaith mwyaf ar gyfer y rhaglen?**

Trwy gyfrwng y Rhaglen Ddigidol, y gobaith yw y bydd modd lleihau'r 'gagendor digidol' rhwng ardaloedd gwledig a threfol gymaint ag y bo modd, fel y gall preswylwyr a busnesau ar draws Canolbarth Cymru fanteisio ar gysylltedd sy'n addas er mwyn bodloni anghenion y presennol ac yn y dyfodol. Gyda'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg ddiwifr a sefydlog, nod y rhaglen yw galluogi llwyddiant rhaglenni a phrosiectau eraill sy'n cael eu cyflawni a chynorthwyo wrth sicrhau ffyniant economaidd y rhanbarth, trwy sicrhau bod cyfleoedd rhagorol ar gyfer addysg, cyflogaeth, a gwasanaethau ar draws y Rhanbarth.

- **Un gair sy'n cynnig crynodeb o Dîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

Synergyddol

Newyddion

- Mae Louise Grove-White a Lily Else wedi ymuno â thîm Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ddiweddar. Louise, fel Swyddog Prosiect a fydd yn arwain y gwaith o amgylch Gwarant i Bobl Ifanc, a Lily fel Swyddog Cefnogi Prosiect.
- Yn ddiweddar, mynychodd Aelodau etholedig o awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a Grŵp Cyngori Economaidd y Fargen Twf y gyntaf mewn cyfres o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan ymgeiswyr am gyllid. Rhoddodd hyn y cyfle i gael trafodaeth am y cynigion gyda noddwyr y prosiectau a rhoi adborth er mwyn helpu i gryfhau'r achos busnes.



Keep up to Date

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru





UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddsoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**